

Nodyn Canllaw



Beth yw'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth?

- Dyma gronfa ddewisol ar gyfer Croeso Cymru gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi atyniadau twristiaeth sy'n flaenoriaeth (cyfredol a newydd), gan gynnwys: gwestai 4 a 5 Seren; llety â gwasanaeth o safon uchel; bwytaï sy'n gyrchfannau; cyfleusterau sba a chyfarfod; atyniadau a gweithgareddau; hunanarlwyo o safon uchel; gwersylla a charafanio. Nid dyma'r unig bethau allai dderbyn cyllid.
- Mae'r gwariant cymwys yn cynnwys gwaith adeiladu a gosodiadau a ffitiadau (ar gyfer busnesau presennol i gael graddfa uwch).
- Nid yw refeniw, prynu eiddo, prynu hen bethau, costau cynnal a chadw, a chyfleusterau lleol (e.e. manwerthu) yn gymwys.
- Mae'n targedu prosiectau cyfalaf twristiaeth hyfyw, cynaliadwy ac
 - safon uchel o fewn y sector preifat o safon uchel sy'n:
 - (a) cyflawni amcanion y Strategaeth Twristiaeth 'Partneriaeth ar gyfer Twf 2014 -2020';
 - (b) creu a diogelu swyddi, sicrhau manteision a thwf economaidd, a
 - (c) darparu safon, arloesedd a naws am le.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad i 'Iaith Fyw: Iaith Byw', y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog a'r Cynllun Iaith Gymraeg i brif ffrydio y Gymraeg ar draws meysydd polisi.

- Mae'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn ac mae disgwyl i'r rhai sy'n elwa ystyried y gofynion ynghylch yr iaith Gymraeg, a chydymffurfio â hwy.

Pa gyllid sydd ar gael?

- Mae'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth yn gyllid argyfwng ac felly mae'n rhaid i ymgisiwyr ddangos tystiolaeth eu bod angen y cymorth a'u bod wedi gwneud cais i bob ffynhonnell breifat a masnachol arall.
- Bydd cymorth o rhwng £25,000 a £500,000 yn cael ei ystyried (os nad oes amgylchiadau eithriadol).
- Bydd y lefel uchaf o gymorth naill ai 25% o'r costau cyfalaf cymwys (yn amodol ar gyfyngiadau Cymorth Gwladol) neu 40% o'r cyflog blyneddol (sylfaenol) cyfartalog ar gyfer swyddi sy'n gyfwerth ag amser llawn sy'n cael eu creu neu eu diogelu.
- Gallai swyddi sy'n gyfwerth ag amser llawn gynnwys swyddi amser llawn, rhan amser a staff dros dro a thymhorol.
- Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr isafswm cymorth o £25,000, fel canllaw, byddai'n rhaid i brosiect greu isafswm
 - 4-5 swydd cyfwerth ag amser llawn (os nad oes amgylchiadau eithriadol).
- Bydd y cymorth ym mhob achos yn cynnwys cymysgedd o grant nad oes yn rhaid ei ad-dalu a chyllid busnes i'w dalu yn ôl.
- Bydd y cyfanswm sy'n ad-daladwy yn isafswm o 30% ond gall fod hyd at 100%, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.

- Bydd yr ad-daliadau yn cael eu rheoli gan Cyllid Cymru, gyda chyfradd llog o 0%, sy'n ad-daladwy dros gyfnod o rhwng 3 a 10 mlynedd, gyda'r posibilrwydd o egwyl ad-dalu cychwynnol (pan fo angen).
- Os bydd cais yn llwyddiannus, bydd cynnig ffurfiol yn cael ei wneud.
- Bydd rhoi cymorth (a allai fod mewn rhandaliadau) yna'n dibynnu ar gwblhau'r prosiect yn llwyddiannus, ar yr amod y ceir tystiolaeth o wariant ar y prosiect, a chyrraedd targedau swyddi, fel a nodir yn y cynnig.
- Ni fydd y taliadau yn cael eu rhyddhau os nad yw'r costau wedi eu talu. Bydd y targedau hefyd yn cynnwys cyrraedd graddfa (ble y bo'n briodol) a bodloni unrhyw ofynion eraill, megis y rhai sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg.

Sut allaf i wneud cais?

- Er mwyn gwneud cais, llenwch Holiadur Cychwynnol, ffonio neu anfon e-bost. Mae hyn yn anffurfiol, nid yw yn gais. Efallai y byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth neu yn ymateb gyda ffurflen gais.
- Nid yw'n debygol i'r cais gael ei benderfynu heb ganiatâd cynllunio, neu cyn prynu, a noder y bydd dechrau ar y gwaith, ymrwymo i brosiect neu wario ar waith datblygu'r prosiect cyn i'r penderfyniad gael ei wneud yn golgyu y bydd y cais yn cael ei wrthod.
- Ar y cyfan, bydd ceisiadau sydd wedi'u cwblhau yn cael eu gwerthuso, a gwneir penderfyniad o fewn 5 i 8 wythnos.
- Edrychwch ar y cysylltiadau a'r dolenni canlynol am ragor o wybodaeth.

Dolenni

[Gwefan Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth](#)

[Strategaeth Twristiaeth Genedlaethol](#)

[Ffurflen Ymholiadau yr Holiadur Cychwynnol](#)

[Cymorth Gwladol](#)

[Busnes Cymru](#)

[Cyllid Cymru](#)

[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#)

[Safonau'r Gymraeg](#)

Cysylltiadau & Gwybodaeth

Cysylltwch â'r tîm Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth ar:-

Rhif ffôn: **0845 010 8020**

Ebost: tiss@wales.gsi.gov.uk
